**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 26 Ionawr 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| S J Rice | W G Thomas | T M White |

**Swyddog/Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Clare James | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: N L Matthews

---

## 25 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd S J Rice – Cysylltiad personol â Chofnod 27 - Y Cynllun Datblygu Economaidd Lleol.

## 26 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

## 27 Y Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol, gyda chymorth y Rheolwr Datblygu Economaidd, adroddiad a oedd yn manylu ar y broses ar gyfer llunio Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol newydd ar gyfer Abertawe a fyddai'n ategu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol presennol.

Ym mis Ionawr 2022, mabwysiadwyd Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De Orllewin Cymru (REDP), sy'n cynnwys Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe fel polisi adfywio economaidd cyffredinol y cyngor. Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn ac arwain ar weithredu'r REDP mewn cyd-destun lleol, roedd angen llunio Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol cyflenwol i nodi blaenoriaethau a chamau adfywio'r economi yn Abertawe.

Roedd y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol (REDP) yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer paratoi'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol. Fe'i datblygwyd yng nghyd-destun amrywiaeth o gynlluniau a strategaethau ar lefel leol, Cymru a'r DU, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr ymrwymiad i ddatgarboneiddio a chyflawni'r nod o fod yn sero net erbyn 2050, y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan newid technolegol a demograffig, ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Fel sail dystiolaeth ar gyfer datblygu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol, gellid defnyddio'r dadansoddiad economaidd helaeth a wnaed ar gyfer paratoi'r REDP ac Asesiad o Les Lleol 2022 yn Abertawe (a lywiodd y Cynllun Lles Lleol).

Mae'r rhain yn nodi mai dyma'r heriau economaidd tymor hwy y mae Abertawe yn eu hwynebu:

- Yr angen am gefnogaeth ac adferiad ar ôl COVID.
- Tyfu'r sylfaen fusnes - mae maint cymharol y sylfaen fusnes (508 busnes i bob 10,000 o'r boblogaeth) yn is na chyfartaleddau Cymru (539) a'r DU (718). Mae gan Abertawe lefel iach o fusnesau ac mae cyfraddau goroesi un flwyddyn a phum mlynedd ar gyfer mentrau wedi gwella'n unol â chyfraddau Cymru a'r DU, ond mae costau cynyddol nwyddau a gwasanaethau, yn enwedig costau ynni a chyfraddau llog cynyddol yn creu amodau masnachu heriol iawn i fusnesau lleol.
- Mae 98.2% o'r busnesau yn Abertawe naill ai'n ficro neu'n fusnesau graddfa fach. Mae potensial twf y busnesau hyn yn hanfodol i dwf economaidd y Sir gyfan. Mae'r busnesau hyn yn ysgogi twf cyflogaeth a swyddi gwerth uwch, sy'n talu'n well.
- Wrth fynd i'r afael â'r bwlch cynhyrchiant parhaus â gweddill y DU - roedd cynhyrchiant Abertawe (gwerth ychwanegol gros yr awr a weithiwyd) ar 85.9% o gyfartaledd y DU yn 2020.
- Cynyddu cyfraddau cyflog – yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2021, cododd enillion amser llawn canolrif blynyddol yn Abertawe 5.2%, sy'n fwy na Chymru (+1.2%) a'r DU (-0.6%). Roedd cyfraddau cyflog amser llawn canolrif blynyddol yn Abertawe ar 91.6% o gyfartaledd y DU ym mis Ebrill 2021.
- Mater parhaus diweithdra ac anweithgarwch a sicrhau cyflenwad o lwybrau a chyfleoedd gwirioneddol. Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn Abertawe'n is na chyfartaledd Cymru ac yn is na chyfraddau cyfatebol y DU.
- Bylchau Sgiliau – mae angen i waith barhau i wella sgiliau pobl er mwyn manteisio ar gyfleoedd mewn diwydiannau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, ac i fynd i'r afael â'r bylchau mewn sectorau megis gofal, lletygarwch ac adeiladu.

- Bwlch Incwm Aelwydydd Cymru - Yn 2019 roedd incwm gwario gros aelwydydd yn Abertawe yn 75.9% o gyfartaledd y DU.
- Lleihau amddifadedd ar draws y sir - Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, roedd gan Abertawe gyfran uwch na'r cyfartaledd o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) a oedd yn golygu ei bod wedi'i chynnwys yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gydag 17 (11.5%) o'i 148 ACEHI yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig. Mae angen creu cyflogaeth gynaliadwy â chyflogau da i helpu i fynd i'r afael â hyn.
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Abertawe'n nodi prinder swyddfeydd o safon uchel ar gael i ddiwallu buddsoddiad mewn ac anghenion twf economaidd, ynghyd â gorgyflenwad o swyddfeydd o ansawdd isel yn ardaloedd canolog ac ar gyrion y dref. Mae bwlch dichonoldeb ar gyfer datblygu eiddo masnachol felly mae angen buddsoddiad yn y sector cyhoeddus cyn bod datblygwyr masnachol yn fodlon buddsoddi.
- Ymateb i newid arferion defnyddwyr a gweithwyr drwy ddatblygu ffyrdd newydd o ddefnyddio canol y ddinas, y rhanbarth a chanolfannau ardal a lleol. Cynnwys addasu i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys dulliau trafnidiaeth a chysylltedd ac effaith gadarnhaol ar leoedd.
- Yr argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur, yr angen am addasu'n gyflym a chyflawni uchelgeisiau Sero Net y cyngor.
- Ymateb i'r chwyldro digidol a'r dyfodol cysylltiedig gyda modelau newydd o weithio.

Byddai'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer adfywio economaidd yn lleol a bydd yn amlinellu'r camau allweddol a fyddai'n cyflawni'r nodau a'r amcanion.

Manylwyd ar yr amserlenni dangosol ar gyfer cwblhau'r gwaith a disgwylir i'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023.

Canolbwyntiodd trafodaethau'r pwyllgor ar y canlynol:

- Archwilio galluogwyr ar gyfer busnesau newydd o ran symleiddio'r broses gynllunio a gwella cludiant cyhoeddus.
- Cyflawni'r nod o fod yn Sero Net erbyn 2050 a'r gwaith parhaus mewn perthynas â'r Grant Lleihau Carbon.
- Archwilio'r cyfleoedd a all godi wrth i'r cais am borthladd rhydd fynd yn ei flaen.
- Rôl a methodoleg y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth fesur ffigurau ynghylch y dadansoddiad economaidd.
- Lefelau cymorth, cymhellion a grantiau sydd ar gael ar gyfer y 7930 o fusnesau bach yn y Sir.
- Rôl y Swyddogion Cymorth Busnes.
- Y tair tasg ategol sy'n sail i'r uchelgeisiau.
- Amlder y cyfarfodydd, aelodaeth a llywodraethu Bwrdd Partneriaeth Adfywio Abertawe.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu hadroddiad addysgol.

**Penderfynwyd:**

1. Y bydd y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd ar gyfer llunio Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol newydd.
2. Y cyflwynir adroddiad diweddaru pellach i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2023.

## 28 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Datblygu Corfforaethol Yr Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2022-2023.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfodydd dilynol:-

- 23 Chwefror 2023 – Glannau Afon Tawe a Chodi'r Gwastad a Chyflwyniad Ap Gwobrwyo Preswylwyr Abertawe.
- 23 Mawrth 2023 – Cyflwyniad i Strategaeth Bae Abertawe.
- 27 Ebrill 2023 - Fframwaith Strategaeth Datblygu Economaidd Drafft.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.32pm

**Cadeirydd**